OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 No. 325

Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002

RHAN IV

GOFYNION YCHWANEGOL SY'N GYMWYS I YSBYTAI ANNIBYNNOL

PENNOD 3

YSBYTAI IECHYD MEDDWL

Cofnodion iechyd meddwl

46. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod unrhyw gofnodion y mae'n ofynnol eu cadw o dan Reoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidwadaeth a Chydsynio â Thriniaeth) 1983(**1**), ac sy'n ymwneud â chadw claf o dan orchymyn mewn ysbyty annibynnol neu ei drin, yn cael eu cadw am gyfnod nad yw'n llai na phum mlynedd gan ddechrau ar y dyddiad y mae'r person y maent yn ymwneud ag ef yn peidio â bod yn glaf yn yr ysbyty.

(**1**) O.S. 1983/893, fel y'i diwygiwyd.